# Fuoch chi 'rioed yn morio?

Fuoch chi 'rioed yn morio?
Wel do, mewn padell ffrio.
Chwythodd y gwynt fi i'r Eil o Man
A dyna lle bûm yn crio.

Crio'n arw arw,
Dim byd ond tywydd garw,
Be glywn i'n rhywle uwch fy mhen?
Ond gwylan wen yn galw.

Gwylan wen yn galw
Wel wir mae'n biti garw,
Rhaid i ti aros hanner dydd
Yn llonydd am y llanw.

Llanw'n dwad wedyn
A'r gwynt yn troi yn sydyn,
Lansio'r badell ar y gro
A nofio 'nôl i Nefyn.